



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Clwb gofal plant ar ôl ysgol – rydym yn anelu i gychwyn y clwb ar ôl ysgol ar nos Lun, Hydref 17eg 3.30 – 5.15. Mae nifer ohonoch wedi mynegi diddordeb ar gyfer defnyddio'r clwb ac rydym wedi llwyddo i adnabod grŵp o staff o'r ysgol fydd yn medru gweithio ar rota. Mae'n rhaid i'r plant fod yn 4 oed neu'n hŷn i fynychu'r clwb.

- **Staffio** - mi fydd Eiry Evans, Siân Davies, Daniel Thomas, Chloe Humphreys, Dawn Dyer a Leanne Lodwig ar gael i weithio yn y clwb ar rota.
- **Cofrestru** - dilynwch y ddolen hon [FORMS](#) i nodi'r union ddyddiau yr hoffech ddefnyddio'r clwb rhwng Hydref 17eg a Hydref 21ain, **gwnewch hyn erbyn dydd lau Hydref 6ed y tro hwn** fel y gallwn drefnu'r staff yn unol â hynny. Y drefn arferol fydd y ddolen yn cael ei rhannu ar y dydd Mercher, cofrestrwch erbyn amser cinio ar y dydd lau a thalu wythnos ymlaen llaw erbyn amser cinio ar y dydd Gwener.
- **Talu** - byddwch yn gallu talu drwy eich cyfrif Parentpay. Y gost fydd £8.00 y noson – mwy o fanylion i ddilyn.

Trawsgwlad ysgolion cylch Aberystwyth – mae dyddiad y trawsgwlad wedi symud i fore dydd Mercher, Hydref 5ed am 10 o'r gloch. Mi fydd y ras gyntaf ar gyfer merched Bl. 3 am **10 o'r gloch y bore** gyda gweddill y rasys i ddilyn pob 10 munud. Yr ail ddyddiad bellach fydd dydd lau, Hydref 6ed.

Sbri Diri yr Urdd - cofiwch fod disgyblion y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cerdded i Benweddig ar ddydd Gwener, Hydref y 7fed ar gyfer sesiwn o gyd-ganu. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £2.00 y plentyn tuag at y costau - gobeithio eich bod wedi llwyddo i wneud y taliad drwy eich cyfrif Parentpay. Mi fydd rhai o blant y Meithrin yn mynychu yn y bore a'r gweddill yn ystod y prynhawn.

Tynnu lluniau unigolion a theuluoedd - mi fydd cwmni Tempest yn tynnu lluniau unigolion a theuluoedd ar ddydd Llun, Hydref 10fed. Os oes gennych unrhyw drefniadau arbennig e.e. tynnu llun teulu gyda disgyblion uwchradd neu fabis yna dewch i'r ysgol erbyn 8 o'r gloch y bore.

Brechriad y fflw drwy chwistrell trwyn – Nyrsys yr ysgol yma ar ddydd Mawrth, Hydref 18fed

Diwrnod Rhyngwladol yr ysgol – dydd Gwener, Hydref 21ain (rhagor o fanylion i ddilyn)

Nosweithiau Agored i drafod cynnydd eich plentyn – nos Lun, Hydref 24ain neu nos Fawrth, Hydref 25ain (rhagor o fanylion i ddilyn)

Gwyliau hanner tymor – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd lau, Hydref 27ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Tachwedd 7fed

Cyngerdd Nadolig – Nos Fercher, Rhagfyr 14eg yn y Neuadd Fawr

Gwyliau'r Nadolig – yr ysgol yn cau ar ddydd Mercher, Rhagfyr 21ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 9fed.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.
R C Williams, Pennaeth,
30/09/2022

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

After-school childcare club – we aim to start the after school club on Monday evening, October 17th 3.30 – 5.15. A number of you have expressed an interest in using the club and we have managed to identify a group of staff from the school who will be able to work on a rota. The children have to be 4 years old or older to attend the club.

- **Staffing** - Eiry Evans, Siân Davies, Daniel Thomas, Chloe Humphreys, Dawn Dyer and Leanne Lodwig will be available to work at the club on a rota basis.
- **Registration** - follow this link [FORMS](#) to indicate the exact days you wish to use the club between October 17th and October 21st. **please do this by Thursday October 6th this time** so that we can arrange the staff accordingly. The usual routine will be the link sent on the Wednesday, register by lunchtime Thursday and pay one week before hand by lunch time Friday.
- **Payment** - you will be able to pay through your Parentpay account. The cost will be £8.00 per night – more details to follow.

Aberystwyth district schools cross-country - the cross country date has moved to Wednesday morning, October 5th at 10 o'clock. The first race for Year 3 girls will be at 10 o'clock in the morning with the rest of the races to follow every 10 minutes. The second date will be Thursday, October 6th.

Sbri Diri yr Urdd – please remember that Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 pupils will walk to Penweddig on Friday, October 7th for a singing session. A contribution of £2.00 per child towards the costs is kindly requested - I hope you have managed to make the payment through your Parentpay account. Some of the Nursery children will attend in the morning and the rest in the afternoon.

Individual and family photos - the Tempest photography company will be taking individuals and family photos on Monday, October 10th. If you have any special arrangements e.g. taking a family photo with secondary school pupils or babies then come to the school by 8 o'clock in the morning.

Flu vaccination via nasal spray – School nurses will be at the school on Tuesday, October 18th.

International day – Friday, October 21st (more details to follow)

Open Evenings to discuss your child's progress - Monday evening, October 24th or Tuesday evening, October 25th (more details to follow)

Half term holidays - the school will close for half term holidays on Thursday, October 27th and re-open on Monday, November 7th

Christmas Concert – Wednesday evening, December 14th in the Great Hall

Christmas Holidays - the school closes on Wednesday, December 21st and reopens on Monday, January 9th.

If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.
R C Williams, Headteacher,
30/09/2022